15 Gorffennaf 2021

Annwyl gyfaill,

Cymwys ar gyfer y dyfodol: ailfeddwl am gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd

Wrth i ni gyrraedd diwedd blwyddyn academaidd eithriadol arall, roeddwn am roi diweddariad i chi ar y gwaith o ddiwygio cymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd. Yn gynharach eleni, fe wnaethom ymgynghori ar gynigion ar gyfer yr ystod o bynciau ar gyfer TGAU newydd sbon.

Canlyniadau'r ymgynghoriad

Cawsom dros 1200 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gydag 11% o'r rheini'n dod gan ddysgwyr a 9% gan rieni a gofalwyr. Dros yr haf, byddwn yn dadansoddi'r adborth yn ofalus i'n helpu i benderfynu sut i ddatblygu ein cynigion.

Ym mis Hydref, byddwn yn cadarnhau pa gymwysterau newydd fydd yn cael eu creu. Byddwn yn cyhoeddi'r rhesymau dros ein penderfyniadau, asesiad o'u heffeithiau posibl, a dadansoddiad llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Gweithio gyda'n gilydd i ailfeddwl am gymwysterau TGAU

Cadarnhau'r ystod o bynciau yw dechrau'r cam nesaf a mwyaf hanfodol o ddiwygio'r cwricwlwm a chymwysterau. Dim ond drwy gydweithio gyda chi ac ystod eang o gyfranwyr i ail-ddychmygu set newydd sbon o gymwysterau TGAU y gallwn wneud hyn.

Y cwricwlwm a'i ddibenion fydd y man cychwyn. Ein ffocws fydd archwilio sut y gall cymwysterau fod yn sail i addysgu, dysgu a dilyniant effeithiol i helpu dysgwyr i gyflawni a ffynnu. Er mwyn ein helpu, bydd angen mewnbwn arnom gan eich sefydliad, ysgolion, colegau ac eraill o bob rhan o'r sector addysg.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Rydym am glywed eich syniadau chi

Rydym wedi ymrwymo i archwilio ffyrdd newydd o wneud pethau ac i ailfeddwl am y berthynas gyfredol rhwng y cwricwlwm, arferion addysgu ac asesu. Hoffem glywed eich syniadau am sut y gellir ailgynllunio cymwysterau. Rydym am i'r cymwysterau newydd fod mor ddiddorol â phosibl i ddysgwyr a chefnogi eu hiechyd meddwl a'u lles.

Rydym angen i chi ein helpu i ddod o hyd i ffyrdd o roi mwy o hyblygrwydd i ysgolion adlewyrchu eu cwricwlwm lleol eu hunain a chynnig profiad addysgu a dysgu cadarnhaol i'w dysgwyr. Rydym am archwilio gyda chi sut y gall technoleg ddigidol chwarae rhan mewn asesiadau, mae gennym rai syniadau ynghylch sut y gallem wneud hyn, a hoffem glywed eich barn.

Ein ffocws yn y flwyddyn academaidd nesaf fydd gweithio'n agos ac yn iteraidd gydag ystod mor eang â phosibl o gyfranwyr i lunio syniadau am nodau, cynnwys ac asesu ar gyfer pob cymhwyster newydd.

Bydd cydweithwyr o bob rhan o'r sector addysg yn cymryd rhan ar bob lefel: fel rhan o baneli sy'n edrych ar gymwysterau unigol, mewn grwpiau rhanddeiliaid sy'n canolbwyntio ar Feysydd Dysgu a Phrofiad unigol, ac mewn grwpiau ehangach sy'n edrych ar syniadau sy'n dod i'r amlwg yn gyffredinol. Byddwn yn dweud mwy am sut y gallwch chi a'ch cydweithwyr gymryd rhan yn gynnar yn nhymor yr hydref 2021.

Llunio'r arlwy cymwysterau 14-16 ehangach

Yn ogystal ag ailfeddwl am gymwysterau TGAU, byddwn hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn ystod y flwyddyn academaidd hon i ystyried pa gymwysterau eraill ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed ddylai fod ar gael, fel bod ystod addas o gymwysterau i bawb.

Rydym am sicrhau y gall ysgolion a darparwyr dysgu ddewis o ystod glir a chynhwysol o gymwysterau dwyieithog sy'n cefnogi eu cwricwlwm lleol ac sy'n diwallu anghenion pob dysgwr.

Gan ddechrau ym mis Medi, byddwn yn ceisio barn ar ba gymwysterau eraill ddylai fod ar gael ochr yn ochr â chymwysterau TGAU. Mae hyn yn debygol o gynnwys cymysgedd o gymwysterau presennol a chymwysterau newydd, rhai cymwysterau newydd wedi'u gwneud ar gyfer Cymru, a rhai cymwysterau o fannau eraill yn y DU.

Edrych ymlaen

Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw hi i ysgolion a cholegau wybod cyn gynted â phosibl sut fydd yr ystod o gymwysterau 14-16 yn edrych yn y dyfodol. A pha mor

bwysig yw hi i gymwysterau newydd fod ar gael mewn da bryd i baratoi i'w haddysgu a chynghori dysgwyr am eu dewisiadau.

Er mwyn sicrhau pontio llyfn, mae angen i ni weithio'n effeithiol yn ystod y flwyddyn academaidd hon i archwilio, profi a chytuno ar nodweddion allweddol TGAU yn y dyfodol a'r arlwy ehangach o gymwysterau.



Rydym yn gwybod y bydd yr heriau a'r ansicrwydd parhaus o ymateb i bandemig COVID-19 yn parhau i amsugno amser a sylw, yn ogystal â datblygu a chyflwyno eich cwricwlwm newydd. Rydym yn sylweddoli bod hwn yn ofyn mawr i bawb yn y sector addysg weithio gyda ni ar ddiwygio cymwysterau, o ystyried y gofynion eraill a ddaw yn sgil y flwyddyn nesaf.

Wedi dweud hynny, mae gennym gyfle gwych hefyd i ailystyried beth all cymwysterau gynnig i ddysgwyr a sut y gallant helpu i wneud y cwricwlwm newydd yn llwyddiant. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda chi a'ch cydweithwyr yn ystod y misoedd nesaf i helpu i wneud i hynny ddigwydd.

Yn gywir,

Philip Blaker

Prif Weithredwr